# Papur y Bwrdd

12 Mai 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Datblygiad y Cynllun Corfforaethol 2017-22** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **NRW B 28.16** |
| **Paratowyd y papur gan:** | **Clive Thomas** |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | **Howard Davies** |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Gwybodaeth / Datblygu / Penderfyniad** |
| **Argymhelliad:** | **Nodi**'r cynigion ymgysylltu a'r allbynnau o weithdy'r Bwrdd a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2016<br>**Cynnig sylwadau** drwy ohebiaeth erbyn 23 Mai 2016<br>**Cytuno** i greu is-grŵp gorchwyl a gorffen o blith aelodau'r Bwrdd, a fydd yn gweithio gyda'r Tîm Cynllunio Corfforaethol rhwng cyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd i greu fersiwn derfynol o'r cynnwys<br>**Cytuno** i gael cynrychiolwyr o blith aelodau'r Bwrdd yn bresennol yn y digwyddiadau ymgysylltu fel y nodir yn y cynnig |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion sydd yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br>• **Ystyried yr hirdymor –** mae edrych i'r dyfodol ac ystyried yr hyn sydd i ddod yn rhan o'n dull gweithredu<br>• **Gweithredu mewn modd integredig** – byddwn yn ystyried gwaith ar draws Cymru gyfan a gwaith sefydliadau eraill<br>• **Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth** – byddwn yn gwahodd rhanddeiliaid o ystod eang o sefydliadau sy'n cynrychioli'r cymunedau sydd i'w cael ar draws Cymru i ymgysylltu â ni a chyfrannu at y gwaith<br>• **Gweithio mewn modd cydweithredol** – byddwn yn gwahodd ac yn annog eraill i weithio gyda ni er mwyn sicrhau manteision lluosog |

| | |
|---|---|
| | • **Atal problemau rhag digwydd –** byddwn yn ceisio sicrhau nad yw ein camau gweithredu'n gwneud pethau'n waeth yn anfwriadol. |

**Mater**

1. Rydym yn rhoi diweddariad i'r Bwrdd ynghylch y camau nesaf yn y broses o ddatblygu Cynllun Corfforaethol 2017-22. Bydd hynny'n cynnwys ein cynlluniau ar gyfer ymgysylltu'n ehangach ag ystod eang o randdeiliaid dros yr haf, ac yn rhoi diweddariad ynghylch ein cynnydd o ran datblygu ein hamcanion llesiant fel corff cyhoeddus. Hoffem ddefnyddio is-grŵp gorchwyl a gorffen o blith aelodau'r Bwrdd i'n helpu i symud y gwaith hwn yn ei flaen rhwng cyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd.

**Cefndir**

2. Mae angen i ni gyhoeddi ein Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2017-22 erbyn 31 Mawrth 2017. Bydd angen i'n Cynllun Corfforaethol fod yn ddatganiad llesiant ar ein cyfer yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a bydd angen iddo hefyd adlewyrchu ein diben newydd fel y diffinnir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn ogystal â'r dyletswyddau eraill sydd gennym eisoes dan ddarnau eraill o ddeddfwriaeth.

3. Er mwyn dilyn y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac fel arfer da, mae angen i ni gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch cynnwys ein Cynllun Corfforaethol arfaethedig. Bydd y cynnwys hwn yn seiliedig ar ein hamcanion llesiant drafft, sydd wrthi'n cael eu datblygu gyda'r Bwrdd ar hyn o bryd. Rydym wedi dewis ehangu ein hymgynghoriad yn rhaglen ymgysylltu ehangach, yn hytrach na chadw at gyfnod ymgynghori cyhoeddus arferol o 12 wythnos.

4. Mae'r amseru'n golygu na fydd llawer o'r allbynnau sy'n ofynnol gan y ddwy Ddeddf uchod yn barod mewn pryd i fod yn sail i'n Cynllun Corfforaethol cyn ei gyhoeddi. Bydd angen i lawer o'n gwaith meddwl fod yn seiliedig ar gopïau drafft cynnar o'r allbynnau hyn, a bydd angen i ni ystyried diweddaru ein Cynllun Corfforaethol yn gyson wrth i fersiynau terfynol gael eu cyhoeddi.

5. O ran Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 caiff yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol ei gyhoeddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr hydref, a bydd angen i lawer o'n gwaith ymgysylltu fod wedi'i gwblhau erbyn hynny, tra bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ar yr un pryd â'n Cynllun Corfforaethol. Ni chaiff Datganiadau Ardal eu cwblhau nes 2019.

6. O ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd cyrff cyhoeddus yn datblygu eu Cynlluniau Corfforaethol / eu Datganiadau Llesiant ar yr un pryd â ni, a bydd asesiadau llesiant lleol yn cael eu llunio gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

7. Yn yr un modd, yn dilyn yr etholiad ym mis Mai caiff Rhaglen Lywodraethu newydd ei chyhoeddi a fydd yn llywio ein Cynllun Corfforaethol terfynol ac yn cael ei hadlewyrchu yn y Cynllun.

8. Mae'r gwaith hwn yn dilyn ein gwaith ar Adolygiadau o Feysydd Busnes a'n Map Ffordd, ac mae'n cysylltu'n agos â'r gwaith hwnnw, yn rhan o raglen ehangach i drawsnewid ein sefydliad a chyflawni ar sail y ddeddfwriaeth newydd hon.

## Ein Rhaglen Ymgysylltu

9. Mae manylion a dyddiadau ein Rhaglen Ymgysylltu wedi'u nodi yn **Atodiad 1**. Ein bwriad yw darparu nifer o gyfleoedd i randdeiliaid allanol a staff gyfrannu. Bydd modd cyfrannu:

- Drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ein prif swyddfeydd ac mewn lleoliadau allweddol ar draws Cymru
- Drwy weminarau arbenigol gydag arbenigwyr a chynulleidfa dechnegol, gan fynd i'r afael â phwnc neu faes gwaith penodol megis ansawdd dŵr, coedwigaeth neu'r newid yn yr hinsawdd
- Drwy arolwg ar-lein a fydd yn casglu gwybodaeth feintiol ac ansoddol.

Cynhelir y gwaith hwn rhwng mis Mehefin a mis Medi 2016. Mae agendâu arfaethedig ar gyfer y digwyddiadau wyneb yn wyneb a'r gweminarau ar gyfer cynulleidfaoedd allanol wedi'u cynnwys yn **Atodiad 2**, ac mae amlinelliad o'r ddogfen ymgynghori a chwestiynau enghreifftiol wedi'u nodi yn **Atodiad 3**.

10. Yna, caiff gwybodaeth o'r rhaglen ymgysylltu ei dadansoddi dros yr hydref, ynghyd ag elfennau eraill megis y Rhaglen Lywodraethu, i lunio ein Cynllun Corfforaethol terfynol i'w gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2017.

## Ein hamcanion llesiant

11. Mae ein hamcanion llesiant fel corff cyhoeddus yn cael eu datblygu mewn cydweithrediad â'r Bwrdd, a bydd ein rhaglen ymgysylltu yn canolbwyntio ar yr amcanion hyn. Ceir diweddariad cynnar ynghylch y maes gwaith hwn yn **Atodiad 4**.

## Y camau nesaf

12. Cyflawni ein Rhaglen Ymgysylltu a gweithio gydag is-grŵp gorchwyl a gorffen o blith aelodau'r Bwrdd i symud y gwaith yn ei flaen rhwng cyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd.

## Argymhelliad/Argymhellion

13. Dylai'r Bwrdd nodi ein cynigion a rhoi sylwadau yn eu cylch, a dylai is-grŵp gorchwyl a gorffen barhau i weithio gyda ni i ddatblygu ein hamcanion llesiant a chynnwys ein hymgynghoriad ar-lein wedi hynny.

14. Hoffem hefyd wahodd aelodau'r Bwrdd i gynrychioli'r Bwrdd yn ein digwyddiadau wyneb yn wyneb a'n gweminarau arbenigol fel y bo'n briodol.

## Prif risgiau

15. Rydym wedi adnabod y prif risgiau, sef:
    - Sicrhau ein bod yn cael yr amcanion llesiant yn iawn – oherwydd byddant yn sail i'n Cynllun Corfforaethol a'r hyn y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio i'w gyflawni yn y dyfodol. Dylai sicrhau bod yr amcanion llesiant yn syml ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, a'u defnyddio yn sail i'n hymgynghoriad, ein helpu i gyflawni hynny.

    - Sicrhau ein bod yn ystyried fersiynau drafft a fersiynau terfynol yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, y Rhaglen Lywodraethu ac ati wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol. Byddwn yn gwneud hynny drwy drafod yn ofalus ac yn rheolaidd â'r sawl sy'n datblygu'r meysydd gwaith hyn.

    - Sicrhau bod ein rhaglen ymgysylltu'n cyrraedd ystod eang o randdeiliaid – rydym yn defnyddio amrywiaeth o fformatau a lleoliadau drwy Gymru gyfan yn ogystal â rhestr gynhwysfawr o randdeiliaid er mwyn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â chynifer o sefydliadau / partïon â diddordeb ag sy'n bosibl.

    - Sicrhau ein bod yn ymgysylltu a'n staff ein hunain yn rhan o'r broses, a sicrhau eu bod yn sylweddoli perthnasedd hyn i'w gwaith eu hunain. Gallwn wneud hynny drwy gynnal digwyddiadau mewnol ac allanol ochr yn ochr â'i gilydd, gan sicrhau bod staff lleol/arbenigol yn cael cyfle i gael mewnbwn yn gyntaf. Yn ogystal, bydd angen i ni wahodd aelodau o staff o bob rhan o'r sefydliad i weithredu fel hwyluswyr mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb a gweminarau.

**Goblygiadau ariannol**

16. Bydd costau'n gysylltiedig â lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb a darparu te a choffi. Byddwn yn gofalu nad yw'r costau hyn yn afresymol ac yn defnyddio ein lleoliadau ein hunain lle bo hynny'n briodol ac yn bosibl.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

17. Bydd angen cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r Cynllun Corfforaethol.

**Mynegai i'r Atodiadau**

Atodiad 1: Amlinelliad o'r Rhaglen Ymgysylltu
Atodiad 2: Agenda amlinellol ar gyfer digwyddiadau wyneb yn wyneb allanol a gweminarau arbenigol
Atodiad 3: Amlinelliad o ddogfen ddrafft yr ymgynghoriad ar-lein a chwestiynau'r arolwg
Atodiad 4: Copi drafft o'r amcanion llesiant yn dilyn gweithdy'r Bwrdd ar 14 Ebrill.